CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

COFNODION
TACHWEDD 2014

DYDDIAD	Nos Fercher, 19 Tachwedd
AMSER	7.00pm
LLEOLIAD	Ysgol Rhostryfan

1.	**Croeso** Yn bresennol roedd Rhys Owen, Elwyn Jones, Jason Hunt, Nerys Evans, Tom Ellis, Michelle Williams, Gwilym Ll Williams (Cadeirydd) Gwilym V Thomas a Cyng. Aeron M Jones. Hefyd yn bresennol roedd Caryl Lewis (Clerc)
2.	**Ymddiheuriadau** Elin Evans, Neal Williams
3.	**Datgan Buddiant** Mater cynllunio Heulfryn, Rhostryfan – Elwyn Jones yn datgan diddordeb. **Clerc i drefnu arwyddo ffurflen**.
4.	**Cadarnhau cofnodion Medi a Hydref** Cofnodion Medi – cywir Cofnodion Hydref – cywir, man newidiadau (angen newid enw gyferbyn a rhai materion)
5.	**Materion i'w trafod:** **a. Mandate banc newydd** Cytuno fod angen 3 i arwyddo ac i ychwanegu Rhys Owen i'r rhestr fel bod 5 'signatory'. **b. Mater Cynllunio Haulfryn, Rhostryfan** Clerc wedi llythyru'r Cyngor ynglyn ar mater. Ymateb yr Adran Gynllunio yn nodi eu bod wedi derbyn cwynion a chadarnhau nad oedd cais cynllunio ar gyfer y datblygiad. Cyngor Gwynedd rwan yn mynnu cais cynllunio 'retrospective'. Aelodau yn fodlon gyda ymateb Cyngor Gwynedd. c. **EE** – **Mater cynllunio ar y tir ger Sain** AMJ yn adrodd - Uned Gorfodaeth Cyngor Gwynedd yn goruchwylio'r mater, swyddogion ddim yn ymweld eu hunain oherwydd bygythiadau. Ansicrwydd ynglyn a perchnogaeth y tir ac ymholiadau yn cael eu gwneud. Y cam nesaf bydd cadarnhau perchnogaeth a bydd fyny i'r perchenog ddelio gyda'r unigolyn. Cyngor Gwynedd mewn lle anodd**.** **d. NE - Man gwylio adar Foryd bach – safle yn fler ofnadwy** Clerc wedi derbyn ymateb gan y Cyngor yn dweud bydd gwaith yn cael ei wneud ar y safle yn y dyfodol agos. Prosiect 'Pecynnu'r profiad' – mae'r foryd yn rhan o hwn, angen sicrhau fod y gwaith yn cael ei wneud. Gofynnwyd a oes bosib gwneud datganiad i hyrwyddo unwaith mae'r gwaith wedi ei wneud. Clerc i fynd ar ol y Cyngor i sicrhau fod y gwath yn cael ei wneud yn fuan. e. **JH** - **Lamp stryd ar llwybr Bro Wyled Rhostryfan (ar draws yr afon i'r brif ffordd) angen ei drwsio.** Clerc wedi derbyn ymateb gan y Cyngor yn dweud fod y diffyg wedi ei logio ac fod ganddynt darged o 5 diwrnod gwaith i'w gwblhau. JH i adrodd i'r clerc os yn parhau yn ddiffygiol. f. **GLLW - Gwteri – angen glanhau rhai Rhostryfan i gyd, enwedig yr un sydd dros y ffordd i'r fynwent.** Adroddwyd fod y gwter dros ffordd i'r fynwent wedi ei lanhau. g. **Hysbysfwrdd – Cwyn fod gwybodaeth Rhos Isaf wedi dyddio**. Clerc wedi bod yno, dim gwybodaeth wedi dyddio. **h. Torri gwrychoedd – angen gwneud rhai Rhostryfan a Rhosgadfan** Cyngor Gwynedd wedi ymateb yn dweud fod y gwaith ar y gweill. Aelodau eisiau atgoffa'r Cyngor fod angen torri gwrychoedd ac eithin a ddim gwair yn unig. Angen

	torri rhai yr ardal i gyd e.e. rhosgadfan a rhostryfan, yn torri fyny at yr arwydd 30 wedyn yn gadael coed sydd yn blanhigion bychan. Angen dal i roi pwysau arnynt i wneud hyn. Clerc i lythyru. i. **EE -** Helicopter yn hedfan yn isel uwchben tai yn y nos **-** yn achosi pryder EE ddim yn bresennol i drafod ond nodwyd fod y swn wedi sdopio yn sydyn wedyn. j. **GVT –** Ffilmio ar gyfer ffilm 'Bolywood' – heddlu ayb wedi eu hysbysu o flaen llaw y byddai saethu ond eto wedi gyrru helicopter yno i ymchwilio'r swn, wast o adnoddau. Clerc i lythyru Heddlu Gogledd Cymru yn nodi gwastraff o arian cyhoeddus. k. **TE** - Camfa Ffordd newydd ochr Hendre (rhwng Goat Llanwnda a Groeslon) wedi torri. Parhau yn ddiffygiol er Cyngor Gwynedd wedi ymateb yn dweud ei fod wedi ei drwsio ond mae'n debyg eu bod yn cyfeiro at yr un anghywir. Clerc i ofyn i'r Swyddog gysylltu gyda TE i adnabod y gamfa gywir**.** l. **GLLW -** Rhos Isaf **–** Dwr yn dod i'r lon rhwng Llyn Efydd a Ty'n Ffynnon. **Ymateb gan Cyngor Gwynedd – *"arolygwr priffyrdd ymweld â'r safle yma tuag wythnos yn ôl yn dilyn cais gan breswylydd. Mae'n debyg fod rhwystr mewn cylfat sydd wedi'i leoli o fewn tir preifat a bod y dŵr yn byrlymu i'r wyneb o ganlyniad. Mae'r arolygwr eisoes wedi'i anfon i Mr Malcolm Owens, Swyddog Draenio Tir, Ymgynghhoriaeth Gwynedd ym Mhencadlys"*** **Clerc i sicrhau fod hyn yn digwydd.** m. **Sedd Wag Rhosgadfan –** GVT am holi ac adrodd yn y cyfarfod nesaf, mae aelod o'r gymuned wedi datgan diddordeb GVT wedi siarad gyda'r unigolyn, parhau yn ansicr oherwydd ymrwymiadau gwaith, **MW hefyd am gael gair gyda fo.** n. **Hysbysfwrdd Dinas** Angen cytuno ar leoliad newydd, gan fod y tir wrth y neuadd wedi ei brynu gan Dwr Cymru. RO yn cynnig capel Glanrhyd fel safle newydd. Byddai'r safle bws yn well lleoliad ond mae'n debyg iawn y byddai oblygiadau cynllunio. **RO i wneud ymholiadau gyda Capel Glanrhyd a Clerc i drafod gyda EE cyn gweithredu.** o. **Tendrau – Torri Gwair Fynwent a Llwybrau** Angen gwirio gyda Bethan pryd fydd angen adolygu'r tendrau yna trafod yn cyfarfod Ionawr. **Clerc i weithredu.**	
6.	**Derbyn Adroddiadau** a. Hysbysfwrdd saron – RO wedi derbyn cwynion am ansawdd y gwaith gosod. b. Gan yn edrych ar lwybrau yn Ionawr, gofynnwyd i drafod Japanese knotweed a pa grantiau sydd ar gael. Nodwyd fod Cyngor Cymuned Beddgelert wedi cael grant i waredu ar Rhododendrons. **RO i wneud ymholiadau gyda'r Parc Cenedlaethol**.	
7.	**Is-bwyllgorau** Dim byd i nodi	
8.	**Materion Ariannol** Cyfri Cadw: Cyfri Siec: **Taliadau:** Cyflog Clerc Tachwedd Ad-daliadau Tachwedd Cyllid y Wlad Tachwedd Cyflog Clerc Rhagfyr Cyllid y Wlad Rhagfyr	 3000.00 13751.49 402.50 59.01 90.00 402.50 90.00

	a. Cytundeb i dalu'r ddau gyflog. b. Nodwyd fod arian yn y cyfrif siec yn isel, felly rhan fwyaf o'r arian cyfrif cadw wedi ei drosglwyddo. Gan fod llog y cyfrif cadw mor isel, cytunwyd fod hyn yn gwneud synnwyr. Atgoffwyd fod angen cadw £3000 y flwyddyn (£1500 o bob praesept) yn y cyfrif cadw ar gyfer gwaith y fynwent. **AMJ yn cynnig i ni edrych ar drosglwyddo'r cyfrif cadw i fanc arall gyda mwy o log, Clerc i wneud ymholiadau.** c. Apel Pabi (Poppy Appeal) – Nododd GLLW ei fod wedi rhoi £10 i'r apel ar ran y Cyngor Cymuned ac **angen ei hawlio yn ol**. Aelodau eisiau diolch i Clwb Mountain Rangers am y gwasanaeth dydd y cofio, roedd yn wasanaeth parchus iawn a plant Rhosgadfan wedi cymryd rhan. **Clerc i lythyru.**
9.	**Materion Cynllunio** a. Ardwyn Rhosgadfan – sied gardd – dim sylw b. 2 Ty'n Rhosydd Rhosgadfan – Nodwyd mai darn o dir comin sydd dan sylw a gall fod yn fater cymhleth. AMJ wedi gyrru ebost i'r Swyddog Cynllunio yn galw'r mater mewn i'r pwyllgor Cynllunio, gall cyfreithwyr y cyngor edrych mewn iddo. Hefyd yn argymell ei fod y cael ei gyfeiro at y Cynulliad. **MW i holi am gefndir y tir ac adrodd i AMJ dros ebost.**
10.	**Gohebiaeth:** **a. Cylchgronnau –** er gwybodaeth b. **Cais am nawdd gan Dawns i Bawb wedi ei dderbyn** - I'w drafod ym mis Chwefror 2015 **c. Cyfrif y Nifer sy'n Cysgu ar y Stryd yn Gwynedd -** Cytunwyd nad oedd yn addas i ymateb d. **Hyfforddiant** - Nodwyd fod hyfforddiant TG ar gael gan Unllais Cymru
11.	**Materion Cyfarfod Nesaf** a. **RO** – Cynnig fod tudalen Facebook yn cael ei ystyried a'i dreialu ar gyfer y Cyngor Cymuned. Ffordd o hyrwyddo ac ennyn diddordeb. b. **GVT** – lamp tu allan i muriau Rhosgadfan angen ei drwsio a lamp tu allan i Pen y ffordd – angen torri'r coed sydd o dan y lamp. **Clerc i weithredu** c. **AMJ** - Waun Bant – wedi cau'r llwybr eto yn cefn y ty a wedi gadael llwyth o gerrig ar y llwybr o flaen y ty (wrth giatiau). AMJ wedi cwyno ond angen i'r Cyngor Cymuned gefnogi drwy lythyru'r Swyddog Llwybrau. **Clerc i lythyru.** d. **AMJ** – Angen edrych ar ffurfioli trefniadau e.e. cyfansoddiad a pholisiau - ydy aelodau yn ymwybodol o rhain? oes angen adolygu? Newidiadau o 2017/18 ymlaen, eisiau i ni fod yn llawer mwy proactive. **Cynnig fod is-bwyllgor yn edrych ar datblygu cynllun 3 blynedd a pholisiau** e. **GVT** – problem gyda defaid ar y lon yn y pentref, peryglus. Clwb wedi bod yn ysgrifennu llythyr i safonau masnach (John Wyn, trwyddedu). Angen rhoi pwysau arno i weithredu. Ydy hyn yn torri cytundeb glasdir mynydd? **Clerc i wneud ymholiadau.** f. **NE** - llythyr wedi dod yn nodi pryderon am sytem carthffosiaeth Rhostryfan, **Clerc i gydnabod y llythyr.** **g. TE** – Lon eifion – Angen gwaith ffensio gwell - 2 bont ddim yn bell o capel glanrhyd o sdesion glanrhyd, hen bontydd rheilffordd, dim byd yn nadu plan rhag mynd i lawr i'r afon. Lot o ddiffygion ar hyd y lon, crash barriers etc…wedi malu. **Clerc i gysylltu a Mark Balaam, Cyngor Gwynedd.** h. **NE** – Tap dwr mynwent, prin dwr sydd yn dod ohono, oes bosib cael rhywun i gael golwg arno? Stop tap i fod yn rhywle. **Clerc i gysylltu gyda Tommy Williams, Dwr Cymru, Dinas.** i. **JH** – Coed wedi disgyn lawr llwybr Bryngwyn am Tryfan, angen rhoi sylw iddo, gallai rhywun gael ei brifo. **EJ yn cynnig cael golwg arno**. j. **EJ** – coed yn tyfu dros arwyddion angen eu torri - fyny o ffrwd cae du, arwydd y

	bont wedi ei orchuddio gan goed, problem yn gyffredinol yn yr ardal. **Clerc i weithredu**. k. **RO** – Lovell dal gyda arian cymunedol os ydy pobl rhosgadfan eisiau gwneud cais. AMJ wedi cael £3k i'r cae chwarae ohono. **RO i yrru manylion y gronfa at AMJ ac aelodau eraill.** l. **RO** – er gwybodaeth - Hadau blodau gwyllt (grwp wild campaign) ar gael i ysgolion a grwpiau, **safle gwe http://gowild.wwf.org.uk/** m. **RO** - Speed ramps saron gan fod problem gyrru – AMJ wedi gwneud ymholiadau yn barod - dim pres i'w wneud. n. **RO** - Cartrefi cymunedol Gwynedd – edrych i wneud cynllun plannu coed a shrubs yn Saron, posibiliadau ar gyfer ardaloedd eraill? **RO i roi manylion cyswllt i'r clerc.**
	Dyddiad Cyfarfod nesaf: **21 Ionawr 2015, cytundeb na fydd cyfarfod ym mis Rhagfyr.** **Daeth y cyfarfod i ben am 9:10pm**